Rhan DD – Ar ôl cyhoeddi'r canlyniad

Cynnwys

1 Cadw, storio ac archwilio dogfennau'r etholiad
- Anfon dogfennau ymlaen at y swyddog perthnasol
- Cadw dogfennau
- Archwilio dogfennau gan y cyhoedd
- Dogfennau nad ydynt ar gael i'w harchwilio
- Cadw'r papurau enwebu
- Cofrestr etholwyr a rhestri pleidleiswyr absennol a farciwyd
- Copïau o ddogfennaeth arall sydd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd

2 Treuliau etholiad ymgeiswyr
- Ffurflenni ymgeiswyr – treuliau etholiad

3 Ffurflenni i'r Comisiwn Etholiadol
- Treuliau ymgeiswyr
- Safonau perfformiad
- Ffurflenni eraill

4 Deisebau etholiadol
- Ffurf y ddeiseb
- Costau

5 Adolygiad o weithdrefnau etholiad
- Adolygiad y Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol)
- Adrodd gan y Comisiwn Etholiadol

Atodiad – Adnoddau
- Mynediad i ddogfennaeth yr etholiad ar ôl yr etholiad

1 Cadw, storio ac archwilio dogfennau'r etholiad

Mae pwrpas cadw dogfennau etholiad ar ôl etholiad yn ddeublyg ac mae'n ymwneud â hygrededd a thryloywder yr etholiad: yn gyntaf, i sicrhau bod trywydd archwilio clir pe byddai archwiliad gan yr heddlu neu her i'r etholiad drwy lys etholiad; yn ail i ddarparu cyfle i bobl archwilio dogfennau perthnasol.

Mae felly yn hanfodol bod prosesau cadarn yn eu lle ar gyfer sicrhau storio'r dogfennau hyn yn ddiogel. Nid yw'n dderbyniol i unrhyw rai o'r dogfennau etholiad gael eu 'colli' ac, os digwydd hyn, gallai olygu y bydd y swyddogion perthnasol wedi torri eu dyletswydd. Yn yr un modd, dylai'r dogfennau hynny y mae'n ofynnol eu bod ar gael i'w harchwilio gael eu labelu'n glir a dylai fod modd eu hadalw at y diben hwnnw.

Dylid hyfforddi staff i becynnu a rheoli dogfennau'n gywir pan fydd y bleidlais yn cau ac yn dilyn yr etholiad.

Anfon dogfennau ymlaen at y swyddog perthnasol

1.1 Yn dilyn yr etholiad, mae'n ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) anfon nifer o ddogfennau i'r swyddog cofrestru perthnasol.[1] Dylid dehongli'r swyddog cofrestru perthnasol fel a ganlyn:

- Yng Nghymru a Lloegr, y swyddog cofrestru perthnasol yw Swyddog Cofrestru Etholiadol yr awdurdod lleol y mae'r etholaeth wedi'i lleoli o fewn ei ardal, neu os yw'r etholaeth yn cynnwys unrhyw ran o ardal fwy nag un awdurdod lleol, Swyddog Cofrestru Etholiadol yr awdurdod lleol y mae ganddo'r nifer uchaf o etholwyr cofrestredig yn yr etholaeth.[2]

- Yn yr Alban, dylid darllen y swyddog cofrestru perthnasol fel Y Siryf Glerc. Y Siryf Glerc perthnasol yw Siryf Glerc y dosbarth llys siryf lle y lleolir yr etholaeth neu, lle mae'r etholaeth yn cynnwys y cyfan neu ran o fwy nag un dosbarth, y Siryf Glerc a benodir drwy orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol.[3]

1.2 Drwy gydol y canllawiau hyn, defnyddir y term 'swyddog perthnasol' i gyfeirio at y personau a nodwyd uchod.

Dylai Swyddogion Canlyniadau yn yr Alban nodi unigolyn o fewn swyddfa'r Siryf Glerc perthnasol sydd â chyfrifoldeb dros dderbyn a chadw dogfennau'r etholiad. Dylai enw a manylion cyswllt y person hwnnw gael eu cadw gan y Swyddog Canlyniadau, a dylid cyd-gysylltu'n agos drwy gydol y broses etholiadol.

[1] Rheol 55(1), PER.
[2] Rheol 55 (1A), PER.
[3] Rheol 58(3), PER.

Mae Adran 25 y PPEA yn darparu ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb dros gadw dogfennau etholiad o Siryf Glercod i Swyddogion Canlyniadau. Ar ôl i'r ddeddfwriaeth berthnasol ddechrau, byddwn yn cyhoeddi cylchlythyr gyda chanllawiau diwygiedig.

Cyn y pleidleisio

1.3 Dylai staff etholiad gynnal trafodaethau cychwynnol am ddosbarthu a storio dogfennau etholiad gyda'r swyddog perthnasol, yn enwedig pan nad yw'r person hwn wedi'i leoli o fewn eu hawdurdod lleol eu hunain. Dylai'r trafodaethau hyn gynnwys awgrym o nifer a maint tebygol y pacedi i'w dosbarthu a'r amserlen debygol ar gyfer dosbarthu.

1.4 Dylai staff etholiad baratoi cynwysyddion a labeli i ddangos cynnwys yr amrywiol bacedi cyn yr etholiad. Mae'n bosib amcangyfrif nifer a maint y pacedi o ddogfennau fydd yn ofynnol o bob etholaeth yn seiliedig ar y cynllun pleidleisio h.y. nifer y dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio.

1.5 Dylid defnyddio pecynnau priodol gadarn gyda labeli yn dangos yn glir cynnwys pob sach. Dylid ystyried defnyddio sachau clir er mwyn caniatáu gwirio cynnwys y pacedi sy'n agored i'w harchwilio gan y cyhoedd. Pa drefniadau pecynnu bynnag sydd i'w defnyddio dylai'r weithdrefn ffurfio rhan o hyfforddiant y Swyddog Llywyddu. Gallai system cod lliw syml gynorthwyo gyda phecynnu'r deunyddiau yn gywir.

1.6 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried cynnwys yn unrhyw wybodaeth a ddarperir i ymgeiswyr a'u hasiantau etholiad awgrym o'r eitemau fydd yn cael eu storio gan y swyddog perthnasol, pryd a lle y bydd y rhain ar gael i'w harchwilio a'r cyfnod y delir hwy amdano.

Yn ystod y cyfrif

1.7 Yn dibynnu ar y lle sydd ar gael yn lleoliad y cyfrif a'r ffordd y trefnir gweithrediadau, dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried defnyddio'r staff a weinyddodd derbyn y blychau pleidleisio a'r parseli o'r gorsafoedd pleidleisio er mwyn nodi a gwahanu'r eitemau rhag y parseli sy'n gorfod mynd at y swyddog perthnasol i'w storio. Dylid briffio'r staff hyn yn llawn er mwyn iddynt ddeall y dasg a'i phwysigrwydd.

1.8 Ar ôl i'r holl gyfrifon papurau pleidleisio a blychau papurau pleidleisio gael eu dosbarthu i leoliad y cyfrif a'r broses ddilysu wedi'i chwblhau, dylid nodi ardal ddiogel ar wahân a'i defnyddio i wahanu cynnwys y parseli i mewn i'r elfennau i'w hanfon ymlaen at y swyddog perthnasol.

1.9 I gychwyn rhaid casglu'r holl ddogfennau o'r pacedi a'r sachau a ddychwelwyd gan y Swyddogion Llywyddu ac mae angen coladu'r rhain yn ofalus. Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod set gyflawn o bob math o ddogfen wedi cael ei derbyn.

Ar ôl y cyfrif

1.10 Ar ôl y cyfrif, mae'n ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) selio'r papurau pleidleisio a gyfrwyd ac a wrthodwyd mewn pacedi ar wahân.[4] Y dogfennau ar gyfer pob etholaeth y mae'n rhaid eu hanfon ymlaen i'r swyddog perthnasol yw:[5]

- yr holl bapurau pleidleisio, sy'n cynnwys papurau pleidleisio a gyfrwyd, papurau pleidleisio a wrthodwyd, papurau pleidleisio nas defnyddiwyd (rhai arferol a rhai a gyflwynwyd), papurau pleidleisio a ddifethwyd a phapurau pleidleisio a gyflwynwyd a ddefnyddiwyd
- cyfrifon papurau pleidleisio, datganiadau papurau pleidleisio a wrthodwyd a chanlyniad dilysu'r cyfrif papurau pleidleisio
- datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post
- rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion
- datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau
- rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- datganiad o'r nifer o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- rhestr o bersonau y mae papurau pleidleisio yn cael eu dosbarthu iddynt ar ôl cywiro gwall clercyddol ar ddiwrnod y pleidleisio
- rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd
- copïau a farciwyd o'r gofrestr etholwyr a rhestr o ddirprwyon
- copïau a farciwyd o'r rhestr pleidleiswyr absennol, y rhestr pleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy, a'r rhestri o bapurau pleidleisio a gollwyd a phapurau pleidleisio a ddifethwyd
- pacedi yn cynnwys rhestri rhifau cyfatebol yr orsaf bleidleisio a'r pleidleisiau drwy'r post
- tystysgrifau cyflogaeth ar ddyletswydd ar ddiwrnod y pleidleisio
- pacedi datganiadau pleidleisio drwy'r post
- amlenni papurau pleidleisio drwy'r post a phapurau pleidleisio drwy'r post a farciwyd gyda 'gwrthodwyd'
- papurau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd a'r datganiadau pleidleisio drwy'r post ac amlenni papurau pleidleisio
- pecynnau pleidleisio drwy'r post nas agorwyd a dderbyniwyd ar ôl i'r bleidlais gau neu a ddychwelwyd fel rhai nas dosbarthwyd

1.11 Ar ôl i'r ddogfennaeth berthnasol gael ei diogelu yn y sachau neu bacedi cyfatebol priodol, dylid arnodi pob sach/paced gyda:

- disgrifiad o'i cynnwys
- dyddiad yr etholiad
- enw'r etholaeth y mae'n berthnasol iddi

1.12 Ar ddiwedd yr ymarfer, dylai'r holl eitemau gael eu selio yn eu sachau/pacedi gyda'r topiau wedi'u selio dros dro a'r sachau wedi'u storio'n ddiogel. **Ni** chaiff asiantau gysylltu eu seliau eu hunain i sachau a phacedi.

[4] Rheol 54(1), PER.
[5] Rheol 55, PER; Rheoliad 91, RPR 2001.

1.13 Yna gellid cynnal gwiriad cynhwysfawr o gynnwys pob sach i sicrhau bod yr holl becynnau y mae angen eu cadw yn bresennol ac, os bydd angen, gellir ailddechrau chwilio am unrhyw eitemau coll. Ar gwblhau hyn, gellir selio'r sachau yn derfynol (eto, ni cheir cysylltu sêl unrhyw asiant), eu harnodi a'u cloi'n ddiogel mewn ardal storio reoledig tan iddynt gael eu hanfon ymlaen i'r lleoliad cywir i'w storio gan y swyddog perthnasol.

1.14 Dylid dosbarthu'r holl sachau i'r lleoliad priodol i'w didoli cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Rhaid i ddogfennau etholiad i etholaethau yn yr Alban gael eu cyflwyno i'r Siryf Glerc naill ai gan y Swyddog Canlyniadau neu aelod o'i staff, neu drwy'r post dosbarthu a gofnodwyd.

Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gynnwys llythyr yn nodi nifer a disgrifiadau'r dogfennau sy'n cael eu dosbarthu. Lle mae'r dosbarthiad yn cael ei wneud yn bersonol, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau neu aelod o'i staff dderbyn derbynneb wedi'i lofnodi gan y Siryf Glerc neu ei swyddog, yn dangos y dyddiad a'r amser.[6]

Cadw dogfennau

1.15 Dylai'r holl eitemau gael eu storio'n ddiogel am **flwyddyn**, ac ar ôl hynny, oni bai y cyfarwyddir fel arall gan orchymyn Tŷ'r Cyffredin, y Llys Sesiwn, yr Uchel Lys, Llys y Goron, llys ynadon neu lys etholiadol, rhaid eu gwaredu mewn modd diogel.[7]

1.16 Gellir cadw'r dogfennau a restrwyd am fwy na blwyddyn drwy orchymyn llys. Yn ogystal, os yw'r swyddog perthnasol yn ymwybodol bod archwiliad neu ddeiseb yn parhau neu'n cael ei ystyried, dylent gysylltu â'r partïon â diddordeb i'w hysbysu o ddyddiad dinistrio'r dogfennau, ac i amlygu'r gallu iddynt wneud cais i'r dogfennau gael eu cadw am gyfnod hwy.

Archwilio dogfennau gan y cyhoedd

Mae nifer o newidiadau arwyddocaol wedi'u cyflwyno ers etholiad cyffredinol Seneddol diwethaf y DU.

Bydd llawer yn dibynnu ar a yw'r person sy'n dymuno archwilio'r ddogfennaeth yn ymwneud yn uniongyrchol â'r etholiad fel ymgeisydd, asiant, cynrychiolydd plaid wleidyddol, ac ati, neu a yw'n aelod o'r cyhoedd yn unig.

Gellir gweld crynodeb o'r darpariaethau newydd hyn yn yr Atodiad, 'Adnoddau'.

[6] Rheol 58, PER.
[7] Rheol 57(1), PER.

1.17 Rhaid i'r dogfennau sy'n ymwneud â'r etholiad a ddosbarthwyd i'r swyddog perthnasol fod ar gael i'w harchwilio, ac eithrio'r rheiny a restrir yn 'Dogfennau nad ydynt ar gael i'w harchwilio,' isod.

1.18 Rhaid i unrhyw berson sy'n dymuno gwneud archwiliad o'r fath gyflwyno'i gais yn ysgrifenedig i'r swyddog perthnasol ac mae'n rhaid iddo: [8]

- nodi pa gofrestr neu ddogfen y mae'n dymuno ei harchwilio
- lle mae'r cais ar gyfer archwilio'r gofrestr rhestri a farciwyd, nodi unrhyw reswm pam na fyddai archwilio'r gofrestr lawn neu'r rhestri na farciwyd yn ddigonol i gyflawni'r diben hwnnw
- nodi a yw am archwilio copi wedi'i argraffu neu gopi data electronig (lle y bo'n briodol)
- nodi'r dibenion y defnyddir yr wybodaeth ar eu cyfer (gall gwybodaeth fod er dibenion ymchwil yn unig o fewn ystyr Adran 33 Deddf Diogelu Data 1998 neu at ddibenion etholiadol)
- nodi pwy fydd yn archwilio'r dogfennau, a
- nodi'r dyddiad y mae'n dymuno gwneud yr archwiliad

1.19 Yna mae'n rhaid i'r swyddog perthnasol sicrhau bod y dogfennau perthnasol ar gael i'w harchwilio o dan oruchwyliaeth o fewn 10 diwrnod gwaith o ddyddiad derbyn y cais. Fodd bynnag, lle y gwnaed cais i archwilio'r gofrestr a farciwyd o etholwyr neu'r rhestri pleidleisio absennol a farciwyd a bod y swyddog perthnasol yn pennu y gellid cwrdd â dibenion y ceisydd drwy archwilio'r gofrestr lawn neu'r rhestri pleidleisio absennol, dylent hysbysu'r ceisydd am y ffaith honno ac yn hytrach hysbysu'r ceisydd lle y bydd y gofrestr lawn neu'r rhestri pleidleisio absennol ar gael i'w harchwilio o dan oruchwyliaeth.[9]

1.20 Dylid cadw'r dogfennau sy'n agored i'w harchwilio wedi'u storio yn ddigonol ddiogel mewn unrhyw fan lle y gellir adalw'r dogfennau perthnasol a'u gwneud ar gael i'w harchwilio o fewn y terfyn amser o 10 diwrnod gwaith ar gyfer archwilio.

Dogfennau nad ydynt ar gael i'w harchwilio

1.21 Y dogfennau **nad** ydynt ar gael i'w harchwilio ar ôl cyhoeddi canlyniad yr etholiad yw:[10]

- papurau pleidleisio, rhai a ddefnyddiwyd a rhai nas defnyddiwyd
- rhestri rhifau cyfatebol wedi'u cwblhau, a
- thystysgrifau ynghylch cyflogaeth ar ddyletswydd ar ddiwrnod y pleidleisio

[8] Rheoliadau 117(3) a 118(2), RPR 2001.
[9] Rheoliadau 118(3) a (4), RPR 2001.
[10] Rheol 57(2), PER; Rheoliad 118(1)(b), RPR 2001.

Cadw'r papurau enwebu

1.22 Mae'r papurau enwebu yn agored i'w harchwilio i bobl benodol yn unig tan i'r papurau enwebu gau, fel y disgrifiwyd yn Rhan B, 'Gweithredu cyn y pleidleisio'.

1.23 Ar ôl yr amser hwnnw, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gadw'r papurau enwebu, ac eithrio'r ffurflen cyfeiriad cartref, wedi'u storio'n ddiogel am flwyddyn yn dilyn y bleidlais. Ni ddylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ganiatáu i unrhyw berson archwilio'r papurau enwebu yn ystod yr amser hwn ac eithrio swyddog yr heddlu neu lys sy'n gofyn i'w gweld fel rhan o archwiliad neu ran o achos llys. Dylid cadw'r papurau enwebu am gyfnod hwy os gofynnir am hynny gan swyddog yr heddlu neu lys.

1.24 Ar ddiwedd y cyfnod, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddinistrio'r papurau enwebu yn ddiogel

Dylid nodi bod yn rhaid storio'r ffurflenni cyfeiriad cartref yn ddiogel am gyfnod o 21 diwrnod yn unig ar ôl dyddiad y bleidlais, ac mae'n rhaid eu dinistrio wedi hynny.

Cofrestr etholwyr a rhestri pleidleiswyr absennol a farciwyd

1.25 Rhaid i'r swyddog perthnasol, os yw'n derbyn cais, gyflwyno i'r Comisiwn Etholiadol, cynrychiolwyr etholedig, pleidiau etholaethol lleol, pleidiau gwleidyddol cofrestredig, ymgeiswyr, yr heddlu ac asiantaethau diogeledd, ac adrannau'r llywodraeth, gopïau o'r gofrestr etholwyr a farciwyd a'r rhestri pleidleiswyr absennol a farciwyd. Mae'r rheiny sy'n gallu gwneud cais am gyflwyno'r gofrestr a farciwyd yn dod o fewn un o'r categorïau o bobl â'r hawl i gofrestr lawn fel y nodwyd yn y RPR 2001 (fel y'i diwygiwyd) o dan:

- yng Nghymru a Lloegr, Rheoliad 100, 103, 105, 106, 108, 109 neu 113
- yn yr Alban, Rheoliad 99, 102, 104, 105, 107, 108 neu 112

1.26 Rhaid gwneud ceisiadau am gyflwyno copïau o'r cofrestri etholwyr neu'r rhestri pleidleiswyr absennol a farciwyd yn ysgrifenedig a rhaid nodi:

- pa rai o'r gofrestr neu'r rhestri a farciwyd y gofynnir amdanynt
- y dibenion y defnyddir y gofrestr neu'r rhestri a farciwyd ar eu cyfer a pham na fyddai cyflwyno neu brynu copi o'r gofrestr lawn neu restri na farciwyd yn ddigonol i gyflawni'r diben hwnnw
- a ydynt yn dymuno derbyn copi wedi'i argraffu neu ddata

1.27 Gall derbynyddion y gofrestr a rhestri pleidleisio absennol a farciwyd ddefnyddio'r wybodaeth at ddibenion ymchwil yn unig o fewn ystyr Adran 33 Deddf Diogelu Data 1998, at ddibenion etholiadol, neu at unrhyw ddiben a

nodwyd yn y rheoliad sy'n rhoi iddynt ar wahân yr hawl i dderbyn copi o'r gofrestr etholwyr lawn.[11]

1.28 Mae hawl gan ymgeiswyr cymwys brynu copi neu gopïau o'r gofrestr a farciwyd, er gallant brynu copi neu gopïau o'r gofrestr a farciwyd ar gyfer yr ardal lle yr oedd hawl ganddynt dderbyn copi am ddim o'r gofrestr lawn yn unig. Er enghraifft, gall cynghorydd lleol brynu'r copi a farciwyd o gofrestr Seneddol y DU ar gyfer ei ward/dosbarth lle gall AS brynu copi ar gyfer ei ardal etholaethol.

1.29 Mae'r ffi ar gyfer darparu'r gofrestr etholwyr a farciwyd a'r rhestri pleidleiswyr absennol a farciwyd wedi'i ragnodi: ar gyfer copïau data electronig, mae ffi gweinyddu o £10 ynghyd â £1 ar gyfer pob 1,000 o gofnodion (neu ran o 1,000 o gofnodion); ac ar gyfer copïau papur, mae ffi gweinyddu o £10 ynghyd â £2 ar gyfer pob 1,000 o gofnodion (neu ran o 1,000 o gofnodion).[12]

1.30 Mae'r ffi gweinyddu unigol o £10 ar gyfer pob cais a bydd yn cwmpasu'r ardal gyfan y mae'r hawl gan yr ymgeisydd iddo. Er enghraifft, dylid codi un ffi ar blaid etholaethol leol ar gyfer y gofrestr gyfan o'r rhan honno o ardal y swyddog perthnasol sy'n dod o fewn eu hetholaeth Seneddol y DU. Ni ddylid codi ffioedd gweinyddu ychwanegol yn seiliedig ar nifer y wardiau, neu ddosbarthiadau yn yr ardal. Yn yr un modd, wrth gyfrifo nifer y 1,000 o etholwyr neu ran o 1,000 o etholwyr ar y rhestr, dylid cyfrifo hwn ar gyfer yr ardal berthnasol gyfan, nid yn ôl ward neu ddosbarth pleidleisio o fewn yr ardal honno.

1.31 Codir un ffi gweinyddu ar gyfer ceisiadau sy'n cwmpasu ardal fwy nag un Swyddog Cofrestru Etholiadol.

1.32 Mae'r ffi gweinyddu yn cwmpasu un copi mewn un fformat (naill ai data wedi'i argraffu neu electronig). Bydd copïau ychwanegol o unrhyw ran neu mewn fformat gwahanol yn golygu y codir ffi ychwanegol. Felly, yn ymarferol, bydd gwneud cais am gopi a farciwyd o'r gofrestr mewn fformatau data electronig ac wedi'i argraffu yn denu ffi gweinyddu o £20 ynghyd â £3 ar gyfer pob 1,000 neu ran o 1,000 o gofnodion yn yr ardal gyfan.

1.33 Er y gellir archwilio'r gofrestr a'r rhestri pleidleiswyr absennol a farciwyd gan unrhyw berson (yn amodol ar fodloni'r swyddog perthnasol ynghylch anghenraid gweld yr wybodaeth), gellir cyflwyno copïau i'r rheiny y cyfeiriwyd atynt uchod yn unig. Gall pawb arall sy'n cynnal archwiliadau wneud nodiadau mewn llawysgrifen yn unig i gofnodi unrhyw ran ohoni ac ni ddylid defnyddio'r nodiadau hyn at ddibenion marchnata. Dylid gwneud pawb sy'n archwilio'r copïau a farciwyd o'r gofrestr yn ymwybodol o'r cyfyngiadau cyn cael mynediad i'r copïau. Ni chaniateir y defnydd o beiriannau copïo, ffotograffiaeth a gliniaduron.

[11] Rheoliad 117(1), RPR 2001.
[12] Rheoliad 120, RPR 2001.

Copïau o ddogfennaeth arall sydd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd

1.34 Ni ellir copïo'r ddogfennaeth arall sy'n agored i'w harchwilio gan y cyhoedd, naill ai'n electronig neu drwy nodiadau mewn llawysgrifen. Yr unig eithriad i hyn yw lle mae person neu sefydliad a gwmpesir gan Reoliad 109 yng Nghymru a Lloegr, neu 108 yn yr Alban, RPR 2001 (h.y. heddluoedd, y gwasanaethau diogeledd ac ati) yn dymuno'r wybodaeth. Mewn achosion o'r fath, rhaid darparu'r copïau yn rhad ac am ddim.[13]

[13] Rheoliadau 109 a 118(8), RPR 2001; Rheoliadau 108 a 118(8), RPR (yr Alban) 2001.

2 Treuliau etholiad ymgeiswyr

Ffurflenni ymgeiswyr – treuliau etholiad

Mae canllawiau i ymgeiswyr ac asiantau ar gael ar wefan y Comisiwn. Gall ymgeiswyr ac asiantau hefyd lawrlwytho nodiadau esboniadol ar gwblhau treuliau etholiad, ffurf dychwelyd treuliau etholiad ymgeisydd, y datganiad gan yr asiant etholiad a'r datganiad ynghylch treuliau etholiad ymgeisydd o wefan y Comisiwn www.electoralcommission.org.uk/guidance/candidates-agents/candidates-and-agents.

3 Ffurflenni i'r Comisiwn Etholiadol

Treuliau ymgeiswyr

3.1 Mae'r RPA 1983 yn gosod terfynau ar wariant ymgeiswyr ac, o dan PPERA, mae'n ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol fonitro cydymffurfio ymgeiswyr ac asiantau gyda'r rheolau ar dreuliau etholiad ymgeiswyr a rhoddion i ymgeiswyr.[14]

3.2 Rhaid i ymgeiswyr mewn etholiadau cyffredinol Seneddol y DU ddychwelyd eu ffurflenni treuliau'r etholiad i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) o fewn 35 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi canlyniad yr etholiad.

3.3 Yn eu tro, mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) anfon copïau o ffurflenni treuliau'r etholiad ymgeiswyr i'r Comisiwn Etholiadol o fewn pedair wythnos i'r terfyn amser statudol hwn.

3.4 Mae'r wybodaeth ganlynol gan Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) hefyd yn angenrheidiol er mwyn i ni gynnal adolygiad o gydymffurfio:

- ffigurau etholwyr ar gyfer pob etholaeth a ddefnyddiwyd i gyfrifo terfyn treuliau'r ymgeiswyr
- terfyn treuliau'r ymgeiswyr a ddarparwyd i ymgeiswyr gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), os yn briodol
- rhestr o'r holl ymgeiswyr a safodd yn yr etholiad, yn cynnwys eu plaid (os o gwbl) ac a oeddent yn llwyddiannus
- cadarnhad ynghylch pwy nad ydynt wedi cyflwyno ffurflen, wedi cyflwyno ffurflen anghyflawn neu wedi cyflwyno ffurflen hwyr a beth, os o gwbl, mae'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi ei wneud eisoes am achosion o'r fath
- cyfeiriadau asiantau etholiad unrhyw ymgeiswyr nad oeddent wedi cyflwyno ffurflenni

Safonau perfformiad

3.5 Cyhoeddasom safonau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ym mis Mawrth 2009, cyn etholiadau Senedd Ewrop a llywodraeth leol yn Lloegr ym mis Mehefin 2009.

3.6 Gofynnir i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) adrodd ar eu perfformiad yn erbyn y safonau yn dilyn etholiad cyffredinol Seneddol y DU ac, unwaith i'r hunan-asesiad gael ei gwblhau a'i ddychwelyd, byddwn yn cynnal ymarfer dilysu, a allai gynnwys gofyn am dystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r asesiad a wneir yn erbyn y safonau. Bydd hyn yn galluogi'r Comisiwn i ddarparu lefel o sicrwydd i'r holl randdeiliaid am gysondeb yr asesiad.

[14] Adran 145, PPERA.

Am fwy o wybodaeth ar safonau perfformiad, gweler Rhan F, 'Safonau perfformiad i Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr'.

3.7 Ar ôl cyflwyno'r adroddiadau, byddwn yn cyhoeddi asesiad o lefel y perfformiad gan Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn erbyn y safonau. Bydd ein hasesiad yn darparu darlun cyffredinol o lefelau perfformiad, gan nodi'r gweithdrefnau, polisïau neu arferion hynny lle mae perfformiad islaw'r safon a osodwyd ac y gallai fod angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) dalu sylw arbennig iddynt yn y dyfodol. Bydd hefyd yn nodi ble mae perfformiad yn arbennig o gryf ac y gallai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) eraill elwa ohono yn y dyfodol. Bydd gwybodaeth am berfformiad Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ar gael ar ein gwefan, lle y gall unrhyw un adolygu perfformiad yn erbyn y safonau mewn fformat hygyrch ar ffurf siart. Mae'r offeryn hefyd yn galluogi cymharu perfformiad gyda Swyddogion Canlyniadau ar gyfer awdurdodau lleol eraill, a chymharu â pherfformiad blaenorol.

Mae ein hofferyn gwe safonau perfformiad ar gael yn http://www.electoralcommission.org.uk/performance-standards/assessment-criteria.

Ffurflenni eraill

Datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post

3.8 Ar ôl etholiad cyffredinol Seneddol y DU, mae'n ofynnol i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) anfon at y Comisiwn a'r Ysgrifennydd Gwladol gopi o'r datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post (Ffurflen K). Rhaid gwneud hyn 10 i 25 diwrnod ar ôl i'r bleidlais gau. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno cylchlythyr yn atgoffa Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) am y gofyniad hwn.

Adrodd ar etholiad

3.9 Mae'n statudol ofynnol i'r Comisiwn adrodd ar weinyddu etholiadau cyffredinol Seneddol y DU ac i adolygu cyfraith ac arfer etholiadol yn barhaus. O ganlyniad, bydd y Comisiwn yn gofyn i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) (a rhanddeiliaid allweddol eraill) i gynorthwyo gyda chasglu data ffeithiol ac i gyflwyno gwybodaeth ac adborth pellach yn dilyn yr etholiad.

3.10 Bydd manylion ynghylch pa wybodaeth a chymorth y bydd y Comisiwn yn ei geisio gan Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn cael eu cadarnhau drwy gylchlythyr cyn yr etholiad.

3.11 Gwerthfawrogir eich cydweithrediad â'ch cymorth yn fawr - mae data o'r fath yn hollbwysig i ni, ac eraill, wrth i ni weithio i lunio argymhellion polisi yn seiliedig ar dystiolaeth.

Am fwy o wybodaeth ar adolygu gweithdrefnau etholiad, gweler Adran 5, ‘Adolygu gweithdrefnau etholiad’.

4 Deisebau etholiadol

4.1 Defnyddir deisebau etholiadol i herio canlyniad etholiad. Disgrifir y weithdrefn ar gyfer cyflwyno deiseb etholiadol mewn perthynas ag etholiad cyffredinol Seneddol y DU isod.

4.2 Dylid cynghori unrhyw berson sy'n dymuno ystyried deiseb i geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun, yn cynnwys er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir isod, yn cynnwys ffioedd llys a'r costau tebygol, yn parhau'n gywir ar y pryd hwnnw.

4.3 Gellir cyflwyno deiseb etholiadol gan:[15]

- berson a bleidleisiodd fel etholwr yn yr etholiad neu yr oedd ganddo'r hawl i bleidleisio, ac eithrio etholwr a gofrestrwyd yn ddienw
- person yn honni yr oedd ganddo'r hawl i gael ei ethol neu ei ddychwelyd yn yr etholiad
- person sy'n honni yr oedd yn ymgeisydd yn yr etholiad

4.4 Y sail a ganiateir er mwyn cyflwyno deiseb yw y cafwyd:[16]

- etholiad amhriodol, neu
- ddychweliad amhriodol

4.5 Rhaid i'r person y mae'r ddeiseb yn cwestiynu ei ethol gael ei wneud yn atebydd i'r ddeiseb. Os yw'r ddeiseb yn cwyno am ymddygiad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu ei staff yn ystod yr etholiad, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fod yn atebydd hefyd. Mewn unrhyw achos, gallai fod yn ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi tystiolaeth ar unrhyw ddigwyddiad neu broses dan sylw, ac felly gallai cofnod ysgrifenedig o unrhyw faterion, fel unrhyw gywiro gwallau gweithdrefnol, a wnaed yn gyfoes, gynorthwyo ag adalw digwyddiadau yn ogystal â darparu tystiolaeth o'r penderfyniadau a wnaethpwyd. Hyd yn oed os yw'r ddeiseb yn cwyno am ymddygiad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), neu un o'i staff yn unig, rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wneud yn ymatebydd hefyd.

Gan eu bod yn bersonol gyfrifol, cynghorir Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) i sicrhau bod ganddynt yswiriant digonol i dalu costau cynrychiolaeth gyfreithiol a chostau eraill y gellir mynd iddynt o ganlyniad i ddeisdeb etholiadol.

Am fwy o wybodaeth, gweler Adran 8, 'Yswiriant' *Hanfodion rheoli etholiad yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU*.

4.7 Rhaid cyflwyno'r ddeiseb o fewn 21 diwrnod ar ôl dyddiad dychwelyd y gwrit (sef yn rhan fwyaf yr achosion y diwrnod ar ôl yr etholiad). Gellir cyflwyno deiseb unrhyw bryd hyd at, ond heb fod yn hwyrach na, **12 canol**

[15] Adran 121(1), RPA 1983.
[16] Adran 120(1), RPA 1983.

nos ar y diwrnod olaf.[17] Mae darpariaeth ar gyfer lansio deiseb ar ôl yr amser hyn os yw'r rheswm mewn perthynas â thaliad arian anghyfreithlon honedig neu wobr arall neu weithredu anghyfreithlon, ac mewn achos felly gellir cyflwyno'r ddeiseb o fewn 28 diwrnod o'r taliad neu'r wobr neu'r weithred anghyfreithlon dan sylw.

Ffurf y ddeiseb

4.8 Dylai'r ddeiseb ei hun ddilyn y ffurf a ragnodwyd gan y Rheolau Deiseb Etholiadol 1960 neu, yn yr Alban y Ddeddf Eisteddiad (Rheolau'r Llys Sesiwn) 1994.

4.9 Rhaid i'r ddeiseb gan ei llofnodi'n bersonol gan bob deisebydd. Rhaid dosbarthu'r ddeiseb i swyddog priodol yr Uchel Lys neu'r Llys Sesiwn yn y cyfeiriad a roddir isod.

Costau

4.10 Mae ffi yn daladwy ar gyflwyno'r ddeiseb etholiadol fel y nodwyd gan y Llys Goruchaf yng Nghymru a Lloegr neu'r Llys Sesiwn yn yr Alban. Yn ogystal, rhaid cyflwyno cais i bennu swm y sicrwydd ar gyfer costau, a rhaid talu ffi ychwanegol ar gyfer hwn. Bydd costau diogeledd a chostau eraill yn gysylltiedig. Am fwy o wybodaeth ar y costau a'r prosesau i'w dilyn wrth gyflwyno deiseb etholiadol, cysylltwch â:

Yng Nghymru a Lloegr:

Supreme Court Cost Office
Room 2.14
Cliffords Inn
Fetter Lane
London EC4A 1DQ

Ffôn: 020 7947 6423
Ffacs: 020 7947 6807

Yn yr Alban:

Petitions Department
Court of Session
Parliament House
Parliament Square
Edinburgh EH1 1RQ

Ffôn: 0131 240 6747
Ffacs: 0131 240 6755

4.11 Cynghorir person sy'n bwriadu cyflwyno deiseb etholiadol, ac unrhyw berson sy'n atebydd i ddeiseb o'r fath, i gael cyngor cyfreithiol mor gynnar â phosib.

4.12 Bydd swyddog a ragnodwyd y llys yn anfon copi o unrhyw ddeiseb etholiadol at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar gyfer yr etholaeth honno. Yna mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyhoeddi'r ddeiseb o fewn yr etholaeth.[18]

[17] Adran 122, RPA 1983.
[18] Adran 121(4), RPA 1983.

5 Adolygiad o weithdrefnau etholiad

Adolygiad y Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol)

5.1 Yn dilyn cwblhau'r gweithdrefnau ôl-etholiad statudol, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gynnal gwerthusiad o sut cynhaliwyd yr etholiad ac yn wir, mae'n rhaid iddo wneud hynny er mwyn cwrdd â safon perfformiad 2.

5.2 Yn ddelfrydol dylid cwblhau'r gwerthusiad o fewn pedair wythnos o ddyddiad cau'r bleidlais pan fydd yr holl faterion yn glir ym meddyliau'r rheiny oedd yn cymryd rhan yng nghynnal yr etholiad.

5.3 Dylai cwmpas yr adolygiad gwmpasu holl agweddau'r etholiad, ond mae'n debygol mai'r meysydd fydd yn haeddu craffu penodol fydd gorsafoedd pleidleisio, ansawdd y gofrestr, perfformiad contractwyr a chyflenwyr, gweithio gydag awdurdod cyfagos lle mae'r etholaeth yn croesi ffiniau awdurdod lleol, staffio, cyfarpar a nwyddau, cyllid, diogeledd a hygrededd yr etholiad, trefniadau dilysu a chyfrif, cyfathrebu (mewnol ac allanol) a phrosesau pleidleisio drwy'r post.

5.4 Gallai fod yn berthnasol gwahodd rhai o'r staff gorsaf bleidleisio fwyaf profiadol i drafodaeth ynghyd â'r rhai sy'n gwneud y gwaith am y tro cyntaf er mwyn mynd i'r afael â holl agweddau proses yr orsaf bleidleisio, o sesiynau hyfforddiant a briffio i ymdrin â sefyllfaoedd anodd ar ddiwrnod y pleidleisio. Byddai hefyd yn fuddiol cynnwys pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr a'u hasiantau yn y broses adolygu i gasglu eu hadborth ar amrywiol agweddau'r etholiad.

5.5. Gellir defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd drwy adolygiadau ôl-etholiad i hysbysu cynllun y prosiect a'r cynlluniwr wrth gefn ar gyfer yr etholiad nesaf.

Adrodd gan y Comisiwn Etholiadol

5.6 Bydd y Comisiwn Etholiad yn cynnal cyfres o seminarau yn fuan ar ôl i etholiad cyffredinol Seneddol y DU gael ei gynnal fel rhan o'r gylch gwaith statudol i adrodd ar gynnal etholiadau. Mae'r rhain yn gyfle i'r rheiny sy'n ymwneud â chynnal etholiadau rannu profiadau gyda'i gilydd a'r Comisiwn ynghylch sut aeth yr etholiadau ac i godi unrhyw faterion penodol sy'n peri pryder. Yna bydd yr wybodaeth hon yn bwydo i mewn i ddatblygu adroddiad statudol y Comisiwn. Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn croesawu adborth gan Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) a'u staff o adolygiadau mewnol o weithdrefnau etholiad y gallent fod wedi ymgymryd â hwy.

Rhoddir manylion cyswllt ar gyfer y Comisiwn yn Rhan A, 'Cyd-destun', Atodiad, 'Adnoddau'.

Atodiad - Adnoddau

Mynediad i ddogfennaeth yr etholiad ar ôl yr etholiad

Dogfennau nad ydynt yn agored i'w harchwilio ac eithrio drwy orchymyn llys

Nid yw'r ddogfennaeth ganlynol ar gael i'w harchwilio, ac eithrio drwy orchymyn llys:[19]

- papurau pleidleisio
- rhestri rhifau cyfatebol a gwblhawyd
- tystysgrifau cyflogaeth ar ddyletswydd ar ddiwrnod y pleidleisio

Mynediad i ddogfennau cyfyngedig[20]

Gellir cael mynediad i'r dogfennau canlynol:

- papurau pleidleisio a wrthodwyd
- papurau pleidleisio a gyfrwyd
- rhestri rhifau cyfatebol a thystysgrifau cyflogaeth

os yw Tŷ'r Cyffredin yn gwneud gorchymyn, neu os yw Uchel Lys neu lys sirol yng Nghymru a Lloegr neu'r Llys Sesiwn neu Siryf yn yr Alban yn fodlon ar dystiolaeth ar lw bod y cais am un o'r rhesymau canlynol:

- cychwyn neu gynnal erlyniad am drosedd mewn perthynas â phapurau pleidleisio
- pwrpas deiseb etholiad cyffredinol Seneddol y DU

Bydd Tŷ'r Cyffredin neu'r llys yn gosod amodau penodol ynghylch mynediad i'r dogfennau, er enghraifft ni ddylid datgelu sut y gwnaeth unrhyw berson penodol bleidleisio tan iddo gael ei brofi gan lys bod y bleidlais yn annilys.

Gellir gwneud apêl ar unrhyw benderfyniad am fynediad gan lys sirol yng Nghymru a Lloegr neu i Siryf yn yr Alban i'r Uchel Lys neu'r Llys Sesiwn yn ôl eu trefn.[21]

Nid oes rhaid gwneud cais mewn llys agored: gellir eu gwneud gan farnwr o'r llys perthnasol naill ai mewn llys agored neu fel arall.[22]

[19] Rheol 57(2), PER.
[20] Rheol 56, PER.
[21] Rheol 56(4), PER.
[22] Rheol 56(5), PER.

Tabl 1: Archwilio dogfennaeth etholiad gan y cyhoedd

Math y ddogfen	Gall unrhyw berson wneud cais i gael y canlynol ar gael i'w harchwilio: • cofrestr etholwyr a farciwyd • rhestr pleidleiswyr drwy'r post a farciwyd • rhestr dirprwyon a farciwyd • rhestr pleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy a farciwyd • unrhyw ddogfen arall mewn perthynas â'r etholiad (ac eithrio'r papurau pleidleisio, rhestri rhifau cyfatebol a gwblhawyd a thystysgrifau cyflogaeth ar ddyletswydd ar ddiwrnod y pleidleisio)
Amodau	Rhaid i'r cais: • gael ei wneud yn ysgrifenedig • nodi pwy fydd yn archwilio'r dogfennau • nodi'r dyddiad y maent yn dymuno archwilio'r dogfennau • nodi a fyddai'n well ganddynt archwilio'r dogfennau mewn fformat wedi'i argraffu neu ddata electronig Yn achos cais i archwilio'r gofrestr neu'r rhestri a farciwyd, rhaid i'r cais: • nodi i ba ddiben y defnyddir yr wybodaeth a pham na fyddai archwilio copi o'r gofrestr lawn neu'r rhestr(i) na farciwyd yn ddigonol er mwyn cyflawni'r diben hwnnw Lle mae'r swyddog perthnasol yn pennu y gellir cyflawni'r dibenion y mae'r ceisydd yn dymuno defnyddio'r wybodaeth ar eu cyfer drwy archwilio copi o'r gofrestr lawn, byddant yn hysbysu'r ceisydd am eu penderfyniad ac yn rhoi gwybod iddynt ble y mae'r gofrestr lawn ar gael i'w harchwilio o dan oruchwyliaeth. Rhaid i'r ddogfennaeth berthnasol fod ar gael i'w harchwilio o fewn 10 diwrnod i ddyddiad derbyn y cais: • Dim ond nodiadau mewn llawysgrifen o'r gofrestr etholwyr a farciwyd a'r rhestri pleidleiswyr absennol a farciwyd y gellir eu gwneud; ni cheir defnyddio gliniaduron a chyfarpar cofnodi arall. • Ni cheir gwneud copïau o ddogfennaeth arall yr etholiad sy'n agored i'w harchwilio ar unrhyw ffurf.

Tabl 1 (parhad): Archwilio dogfennaeth etholiad gan y cyhoedd

Amodau (parhad)	Dylid defnyddio unrhyw wybodaeth a geir drwy archwilio dogfennaeth yr etholiad at y dibenion canlynol yn unig: • dibenion ymchwil o fewn ystyr Adran 33 Deddf Diogelu Data 1998 (ymchwil, hanes ac ystadegau) • dibenion etholiadol
Gellir eu harchwilio gan	• unrhyw berson

Tabl 2: Copïau o'r gofrestr etholwyr a'r rhestri pleidleiswyr absennol a farciwyd

Math y ddogfen	Ar gais ac ar dalu ffi (gweler 'cofrestr etholwyr a'r rhestri pleidleiswyr absennol a farciwyd', uchod) mae hawl gan unigolion a mudiadau penodol gael copïau o ran berthnasol y: • gofrestr etholwyr a farciwyd • rhestr pleidleiswyr drwy'r post a farciwyd • rhestr dirprwyon a farciwyd • rhestr pleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy a farciwyd
Amodau	Rhaid i'r cais: • gael ei wneud yn ysgrifenedig • nodi pa gofrestr neu restr(i) a farciwyd (neu'r rhan berthnasol) sydd ei hangen • nodi ai copi wedi'i argraffu neu ddata electronig o'r gofrestr neu'r restr(i) a farciwyd sydd ei angen • nodi'r diben y defnyddir y gofrestr neu'r restr(i) a farciwyd ar ei gyfer a pham na fyddai darparu neu brynu copi o'r gofrestr lawn neu'r rhestr(i) na farciwyd yn ddigonol i gyflawni'r diben hwnnw Rhaid talu ffi yn cynnwys ffi gweinyddu unigol o £10 ynghyd â £1 ar gyfer pob 1,000 o gofnodion neu ran o 1,000 o gofnodion ar gyfer copïau data electronig a £2 ar gyfer pob 1,000 o gofnodion neu ran o 1,000 o gofnodion ar gyfer copïau wedi'u hargraffu. Os nad yw'r swyddog perthnasol yn fodlon bod angen i'r ceisydd weld y marciau ar y gofrestr neu'r restr(i) a farciwyd at y diben y gofynnir amdani ar ei gyfer, gallant drin y cais fel un am wybodaeth mewn rhestri na farciwyd neu am gopi o'r gofrestr lawn, neu'r ddau. Gellir defnyddio'r gofrestr etholwyr a'r rhestri a farciwyd ar gyfer y canlynol yn unig: • dibenion ymchwil o fewn ystyr Adran 33 Deddf Diogelu Data 1998 (ymchwil, hanes ac ystadegau) • dibenion etholiadol • pwrpasau sy'n gymwys o dan y rheoliad sy'n rhoi'r hawl i'r unigolyn neu'r corff ddefnyddio'r gofrestr etholwyr lawn

Tabl 2 (parhad): Copïau o'r gofrestr etholwyr a rhestri pleidleiswyr absennol a farciwyd

Rhaid eu darparu ar fodloni'r amodau uchod i	• y Comisiwn Etholiadol • cynrychiolwyr etholedig at ddibenion etholiadol • pleidiau etholaethau lleol • pleidiau gwleidyddol cofrestredig • ymgeiswyr • yr heddlu ac asiantaethau diogeledd • adrannau'r llywodraeth a chyrff eraill

Tabl 3: Copïau o ddogfennaeth arall yr etholiad

Math y ddogfen	Unrhyw ddogfennaeth yr etholiad sy'n agored i'w harchwilio gan y cyhoedd, ac unrhyw ddogfen arall sy'n gysylltiedig â'r etholiad, ac eithrio: • papurau pleidleisio • rhestri rhifau cyfatebol a gwblhawyd • tystysgrifau ynghylch cyflogaeth ar ddyletswydd ar y diwrnod pleidleisio
Gellir eu harchwilio gan a'u darparu ar gais i	• unrhyw heddlu ym Mhrydain Fawr • Gwasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Iwerddon a Gwasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Iwerddon (Wrth gefn) • Yr Asiantaeth Troseddau a Drefnwyd Ddifrifol • Sefydliad Technoleg Gwybodaeth yr Heddlu • unrhyw gorff o gwnstabliaid a sefydlwyd o dan Ddeddf Seneddol • Y Gwasanaeth Diogeledd • Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth • Y Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol
Amodau	Mae darparu copi o'r dogfennau a mynediad i'w harchwilio yn rhad ac am ddim. Gellir defnyddio'r wybodaeth a ddarperir at y dibenion a nodir yn y rheoliad y gall y corff gaffael y gofrestr lawn oddi tano.